O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 3137 (Cy. 310)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2013

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007"). Mae Rheoliadau 2007 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu unrhyw ysgol a gynhelir, pan fydd cais ysgrifenedig yn dod i law oddi wrth yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol, gyflenwi, o fewn pedwar diwrnod ar ddeg, unrhyw wybodaeth y bydd yr awdurdod yn gofyn amdani mewn cysylltiad â disgyblion yn yr ysgol.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau 2007 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ddarparu i awdurdod lleol wybodaeth ychwanegol at yr wybodaeth y mae eisoes yn ofynnol iddo ei ddarparu yn rhinwedd Rheoliadau 2007 mewn perthynas â gwahardd disgyblion yn barhaol. Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau 2007 ymhellach er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ddarparu gwybodaeth i awdurdodau lleol mewn perthynas â gwahardd disgyblion am gyfnod penodol.

# 2013 Rhif 3137 (Cy. 310)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2013

*Gwnaed* *10 Rhagfyr 2013*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *12 Rhagfyr 2013*

*Yn dod i rym* *13 Ionawr 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 537A(1), (2) a (4) a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2013 a deuant i rym ar 13 Ionawr 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(**1**) 1996 p.56. Mewnosodwyd adran 537A gan adran 20 o Ddeddf Addysg 1997 (p.44) ac fe'i hamnewidiwyd gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31), Atodlen 30, paragraff 153, a diwygiwyd is-adran 1(a)(i) ymhellach gan O.S. 2010/1158.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/673) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.12).

(**3**) O.S. 2007/3562 (Cy.312) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/2325 (Cy.242).

(2) Yn rheoliad 3, yn y man priodol, mewnosoder—

"ystyr "gwaharddiad cyfnod penodol" ("*fixed period exclusion*") mewn perthynas â disgybl yw disgybl sydd wedi ei wahardd am gyfnod neu gyfnodau penodol, am resymau disgyblu, o'r ysgol y gwneir cais iddi o dan reoliad 3 neu 5;".

(3) Yn Rhan 3 o Atodlen 2 yn lle paragraff 1 rhodder—

"1

Yr wybodaeth ganlynol am bob disgybl sydd wedi ei wahardd yn barhaol o'r ysgol ac yr oedd ei ddyddiad gwahardd parhaol yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Awst cyn y dyddiad y gwneir y cais am wybodaeth—

(a) rhif unigryw cyfredol disgybl;

(b) rhif unigryw cyfredol dysgwr, os yw'n hysbys;

(c) cyfenw;

(ch) enw cyntaf, neu bob enw cyntaf os oes mwy nag un;

(d) enw canol, neu bob enw canol os oes mwy nag un;

(dd) rhyw;

(e) dyddiad geni;

(f) y dyddiad y dechreuodd y gwaharddiad parhaol;

(ff) y rheswm dros y gwaharddiad; ac

(g) a oedd y gwaharddiad yn waharddiad parhaol neu'n waharddiad cyfnod penodol.

2

Yr wybodaeth ganlynol am bob disgybl sydd wedi ei wahardd o'r ysgol am gyfnod penodol ac yr oedd ei ddyddiad gwahardd yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Awst cyn y dyddiad y gwneir y cais am wybodaeth—

(a) rhif unigryw cyfredol disgybl;

(b) rhif unigryw cyfredol dysgwr, os yw'n hysbys;

(c) cyfenw;

(d) enw cyntaf, neu bob enw cyntaf os oes mwy nag un;

(e) enw canol, neu bob enw canol os oes mwy nag un;

(f) rhyw;

(g) dyddiad geni;

(h) y dyddiad y dechreuodd y gwaharddiad;

(i) nifer y sesiynau ysgol y mae'r gwaharddiad yn gymwys iddynt;

(j) y rheswm dros y gwaharddiad; ac

(k) a oedd y gwaharddiad yn waharddiad parhaol neu'n waharddiad cyfnod penodol.".

*Huw Lewis*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

10 Rhagfyr 2013